

**Canllaw dychwelyd
i'r ysgol**

Ysgol Llangynnwr



Medi 2020

Canllaw dychwelyd i'r ysgol

Ysgol Llangynnwr

Wrth ddal i fyny ac ail gydio ar ddiwedd Tymor yr Haf, mae staff yr ysgol wedi gwerthfawrogi'r cyfle i weld gwynebau hapus a chyfeillgar pob un plentyn. Mae hyn wedi caniatáu amser i sgwrsio a chadarnhau lles ac hapusrwydd y plant yn ogystal â manteisio ar gyfle i drafod ein disgwyliadau o ran ein dulliau dysgu o bellter. Wrth gynnal y diwrnodau cyswllt mae canran uchel o blant ar draws yr ysgol wedi dychwelyd. Mae'r ysgol wedi profi'r gweithdrefnau sydd mewn lle ac wedi cadarnhau bod ein systemau'n hynod effeithiol.

Mae'r penderfyniad i ail-agor yn seiliedig ar gyngor gwyddonol felly mae'r canllaw hwn yn amlinellu trefniadau'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion a'r staff wrth ddilyn canllawiau clir Llywodraeth Cymru.

Ar ddechrau'r tymor, byddwn yn blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod yr wythnos gyntaf ac yna'n cynyddu nifer y disgyblion yn raddol. Mae atodiad A yn amlinellu'r amserlen dychwelyd.

Bydd pob disgybl llawn amser yn dychwelyd o ddydd LLun 7.9.20 ymlaen.

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r holl fesurau yr ydym yn eu cymryd i leihau'r risgiau ac eich sicrhau y gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel ac elwa eto o'r holl brofiadau cadarnhaol a gânt yn yr ysgol.

Dros yr wythnosau cychwynol byddwn yn ystyried:

- **iechyd a lles:**

bydd ein dulliau dysgu'n cefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol y dysgwyr ar yr un pryd â chydabod pwysigrwydd chwarae a dysgu yn yr awyr agored ^[L]_[SEP]

- **diben:**

bydd diben clir i'r holl ddysgu, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr nawr ac yn y tymor hwy ^[L]_[SEP]

- **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol:**

bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu ac i ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm. ^[L]_[SEP]

- **dulliau dysgu eang a chytbwys:**

bydd ein disgyblion yn cael profiadau dysgu sy'n ymestyn dros gwricwlwm eang ac sy'n cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth eang ac amrywiaeth o wybodaeth a sgiliau ^[L]_[SEP]

Mae cyhoeddiad Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams, ar 9 Gorffennaf 2020, yn galluogi holl ysgolion Cymru i ail-agor yn ddiogel ym mis Medi.

• **cynnydd ac asesu:**

Byddwn yn defnyddio asesiadau i helpu ein disgyblion i symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu [L] [SEP]

• **partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr:**

Byddwn yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth ac iaith gyffredin gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i osod sylfaen ar gyfer y dysgu a chefnogi'r profiadau dysgu. [L] [SEP]

Presenoldeb [L] [SEP]

Bydd pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref oni bai bod ganddo rheswm meddygol / iechyd i beidio. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n hunan warchod neu'n cysgodi. [L] [SEP]

• **Beth sydd angen ar fy mhientyn wrth ddychwelyd?** [L] [SEP]

Dylai pob disgybl ddod â: - [L] [SEP]

- Potel ddŵr y gellir ei hail-lenwi [L] [SEP]
- Argymhellir het ac eli haul (os fydd y tywydd yn braf)- un sy'n para am gyfnod hir ac wedi cael ei roi

cyn cyrraedd yr ysgol -(gan bod y plant yn debygol o dreulio mwy o amser y tu allan na'r arfer) [L] [SEP]

- Pecyn bwyd a byrbryd iachus (gwybodaeth pellach i ddilyn)

- Dylai disgyblion CA2 ddod â chât pensil / waled blastig sy'n cynnwys deunyddiau sylfaenol. Ymhlith y deunyddiau a argymhellir mae beiro, pensil, rwber, pren mesur, pensiliau lliwio. [L] [SEP] DYLID LABELU POPETH [L] [SEP]

Gwisg Ysgol [L] [SEP] Disgwylir i bob plentyn wisgo gwisg ysgol ym mis Medi. [L] [SEP] Gall rhieni sy'n gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim wneud cais am £125 i [L] [SEP] brynu gwisg ysgol, offer, pecyn chwaraeon a phe cyn ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Dilynwch y cyswllt isod am fwy o wybodaeth:- [L] [SEP]

<https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad>

Trefniadau Gollwng a Chasglu

Rydym wedi trefnu amseroedd gollwng a chasglu penodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 er mwyn cyfyngu ar y niferoedd sy'n cyrraedd y safle ar yr un adeg. Bydd yn bwysig eich bod yn cadw at eich amser penodedig ar gyfer gollwng a chasglu. Rhoddir hyblygrwydd fel y gellir gollwng brodyr a chworydd gyda'i gilydd. **Os oes disgyblion gennych yn y ddau gyfnod,**

yna er mwyn hwyluso'r broses, caniateir i chi ddilyn amseroedd y Cyfnod Sylfaen, hynny yw, dod â'ch plant erbyn 9 o'r gloch.

Bydd angen i rieni plant Dewi a Non ddefnyddio giât ochr yr ysgol a fydd yn eich tywys i iard dop yr ysgol. Bydd staff yno i'ch croesawu.

Bydd angen i rieni plant dosbarthiadau Rhiannon a Myrddin ddefnyddio prif giât yr ysgol a mynd i iard ochr dde yr ysgol. Bydd angen i rieni plant Pwyll ddefnyddio prif giât yr ysgol a mynd i iard ochr chwith yr ysgol. Bydd staff yno i'ch croesawu.

Fe fydd angen i ddisgyblion dosbarthiadau Glyndwr, Arthur a Llywelyn fynd i iard ochr chwith yr ysgol, tra bydd disgyblion Sandde, Buddug a Gwenllian yn mynd i'r iard ar yr ochr dde. Bydd staff yno i'ch croesawu.

UN RHIANT YN UNIG I DYWYS Y PLENTYN

Bydd staff yn bresennol i gefnogi a chynghori ar ddechrau a diwedd pob dydd.

Clwb Brecwast

Fe fydd ein Clwb Brecwast yn ail-ddechrau ar y 7fed o Fedi ar gyfer gofal plant yn unig. Ni fydd brecwast yn cael ei gynnis nes y 14eg.

Clwb Cynnwr

Fe fydd Clwb Cynnwr yn ail-ddechrau ar y 7fed o Fedi. Trefniadau fel arfer.

Trefniadau Casglu

Mae amser casglu penodol wedi'i trefnu sy'n adlewyrchu'r system gollwng. Cadwch at eich slot amser penodedig.

UN RHIANT YN UNIG I GASGLU

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd gollwng a chasglu: -

--

Gollwng | | |--| | | |--|

8.45: Bl. 3, 4, 5 a 6

9.00: Meithrin, Derbyn, Dosbarth Myrddin, Bl 1 a 2

Casglu

3.15: Bl. 3, 4, 5 a 6 a Blwyddyn 3 Myrddin

3.00: Dosbarth Meithrin, Derbyn, Dosbarth Myrddin (Blynnyddoedd 1 a 2), Bl.1 a 2.

Mae trefniadau Clwb Brecwast a Clwb Cynnwr yn aros yr un peth.

AMSERAU EGWYL A CHINIO

Amseroedd Chwarae


Bydd plant yn cael eu goruchwylio gan staff yr ysgol yn ystod amseroedd chwarae. Bydd amseroedd chwarae ac ardaloedd chwarae yn cael eu darwahanu fel bod plant yn chwarae o fewn eu unedau.

Bydd staff bob amser yn ymdrechu i sicrhau pellter cymdeithasol priodol yn ystod amser chwarae, yn dibynnu ar oedran a dealltwriaeth y plant.

Cinio

Ar hyn o bryd, fe fydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn, hyd nes y byddwn yn derbyn rhagor o wybodaeth am hyn.

DOSBARTHIADAU

- Byddwn yn cadw at ganllaw Llywodraeth Cymru er mwyn diwallu gofynion cyflwyno amserlen a chwricwlwm yr ysgol. Mae hyn yn golygu byddwn yn gallu "cymysgu grwpiau ehangach ar gyfer addysgu arbenigol a gofal cofleidiol" 

- Wrth gadw disgyblion o fewn eu hunedau dysgu, gall yr holl athrawon a staff o fewn yr uned "weithredu ar draws gwahanol ddosbarthiadau a grwpiau blwyddyn er mwyn hwyluso cyflwyno amserlen yr ysgol." [L] [SEP]
- Byddwn yn symud a thynnu dodrefn a desgiau er mwyn creu mwy o le. [L] [SEP]
- Bydd y defnydd a rennir o ran adnoddau yn gyfyngedig iawn. [L] [SEP]
- Bydd adnoddau'n cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio. [L] [SEP]
- Bydd drysau a ffenestri'n cael eu cadw ar agor (os yn bosib) er mwyn caniatáu digonedd o awyr iach. [L] [SEP]

SYMUD O AMGYLCH YR YSGOL [L] [SEP]

- Rydym wedi sefydlu system unffordd ar gyfer teithio o amgylch yr adeilad. Bydd dosbarthiadau yn cael eu hebrwng gan athrawon/ [L] [SEP] cynorthwy-wyr i'r cyfeiriad hwn (amser chwarae, amser cinio, amser cartref ac ati).

CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol disgwyl i blant, yn

enwedig rhai iau neu'r rhai ag anghenion ychwanegol, gadw pellter cymdeithasol ar bob achlysur. Byddwn yn gweithredu'r mesurau a nodwyd cyn belled ag y gallwn, mewn modd cadarnhaol, gan sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn derbyn gofal da.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r lefel uchaf o ofal ac anogaeth i'n holl blant, gan gynnwys eu cysuro os ydynt mewn trallod a gweinyddu cymorth cyntaf.

Beth ydyn ni wedi'i wneud?

- Mae marciau dau fetr wedi'u marcio yn ardal y cyntedd ac ar hyd y coridorau i hysbysu'r disgyblion o'r bylchau gofynnol.
- Mae marciau wedi'i nodi ar gyfer rhieni ar yr iard gollwng/casglu.
- Mae'r holl staff yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol.
- Bydd nifer y bobl mewn coridorau ar unrhyw un adeg yn gyfyngedig.
- Bydd meysydd chwarae yn cael eu hamserlennu ar gyfer pob uned a byddant yn defnyddio adnoddau eu hunain.

GLANHAU A DIHEINTIO

- Bydd yr adeilad yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac o leiaf unwaith y dydd. Bydd arwynebau caled yn cael eu glanhau â dwr sebon cynnes neu'r cynhyrchion glanhau gofynnol. Rhoddir sylw arbennig i lanhau ardaloedd ac arwynebau 'cyffyrddiad uchel' fel byrddau, offer a dolenni drysau. [L] [SEP]
- Bydd gan bob dosbarth ddeunyddiau glanhau a chadachau ar gyfer glanhau adnoddau / arwynebau cyffwrdd uchel yn ystod y dydd [L] [SEP]
- Bydd glanweithydd dwylo yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau allweddol. [L] [SEP]
- Dim ond dau ddisgybl a ganiateir mewn unrhyw floc toiled ar y tro (un disgybl ym mhob ty bach). CA2 - toiledau unigol [L] [SEP]
- Sefydli'r amseroedd golchi dwylo penodol ar gyfer disgyblion. (Poster i'w hannog.) [L] [SEP]
- Bydd poster i golchi dwylo effeithiol yn cael eu harddangos. Bydd gan blant fynediad at ystod o ddeunyddiau golchi dwylo - bariau o sebon, sebon hylif a pheiriannau sebon meddal. [L] [SEP]
- Bydd disgyblion yn cael eu hannog i olchi eu dwylo â sebon a dwr am o leiaf 20 eiliad yn rheolaidd, [L] [SEP] Byddant yn golchi dwylo: [L] [SEP] wrth gyrraedd yr ysgol [L] [SEP] - cyn ac ar ôl trin bwyd [L] [SEP] - cyn ac ar ôl trin

gwrthrychau ac offer^[L]_[SEP]- ar ôl iddynt chwythu eu trwyn, tisian neu beswch. ^[L]_[SEP]•

- Darperir PPE priodol ar gyfer gofal personol, Cymorth Cyntaf ac ati. Gwneir asesiad risg ar gyfer pob plentyn sydd angen gofal personol a phenodol a defnyddir y PPE priodol yn unol â hynny. ^[L]_[SEP]
- Dylai dysgwyr a staff besychu neu disian i'w penelin. I'r graddau y mae'n bosibl, dylid eu hannog i beidio â chyffwrdd â'u hwyneb, yn enwedig wrth ddefnyddio hances bapur neu benelin i besychu neu disian. ^[L]_[SEP]

OFFER DIOGELU PERSONOL (P.P.E.) ^[L]_[SEP]

Nid oes angen defnyddio offer amddiffynnol personol (PPE) wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgol arferol mewn ystafelloedd dosbarth / ysgol. ^[L]_[SEP]Argymhellir gorchuddion wyneb lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol. Nid ydynt yn disodli mesurau effeithiol pellhau cymdeithasol a hylendid dwylo. Byddwn yn trefnu ein hamgylchedd er mwyn sicrhau y gellir cynnal pellter cymdeithasol priodol gydol y dydd.

^[L]_[SEP]Efallai y bydd angen PPE pan fyddwn yn : ^[L]_[SEP]

- Delio ag amheuaeth o coronafirws (COVID-19) ^[L]_[SEP]
- Darparu Gofal Agos (cynhelir asesiad risg unigol i

ddisgyblion bennu lefel y PPE sydd ei angen)

- Delio ag agweddau penodol Cymorth Cyntaf.

Ni ddylai plant fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau pe bant yn:-

- teimlo'n sâl, cael unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu maent wedi profi'n bositif i COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf
- byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi profi'n bositif i COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf.
- cydymffurfio â'r gofynion hunan-ynysu angenrheidiol yn y ddau achos

Os yw eich plentyn yn mynd yn sâl neu angen hunanyysu, gallwch **roi gwybod i ni am hyn yn uniongyrchol** os yn bosib neu 24/7 drwy ffonio 0300 333 2222, neu drwy e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn rhoi gwybod i'r ysgol ar eich rhan.

I gael gwybodaeth am sut i wneud cais am brawf ar eich cyfer chi eich hun neu ar gyfer rhywun yn eich cartref sydd â symptomau gan gynnwys plant o dan 5 oed, ewch i

wefan [Llwyodraeth Cymru https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws](https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws).

Os ydych chi neu eich plentyn yn teimlo'n anhwylyd ac angen cyngor meddygol, ffoniwch NHS 111 i gael cyngor neu ewch i'r [wefan https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy](https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=cy) neu ffoniwch eich Meddyg Teulu.

CLWB CYNNWR

Bydd Clwb Cynnwr yn ailagor ar yr oriau arferol, ar ddydd Llun, Medi 7fed.

AP YR YSGOL

Mae'n holl bwysig eich bod yn addasu hysbysebiad ar eich ap yr ysgol i flynyddoedd perthnasol eich plentyn ym mis Medi - dyma'r unig ffordd i sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth sy'n berthnasol i'ch plentyn chi.

ATODIAD A

Dydd Mawrth 1.9.20 - Diwrnod gosod (Staff yn unig)

Dydd Mercher 2.9.20 - Diwrnod gosod (Staff yn unig)

Dydd Iau 3.9.20 - Plant rhan amser Dewi, Rhiannon, Myrddin, Buddug, Sandde a Gwenllian

Dydd Gwener 4.9.20 - Plant llawn amser Dewi, Non, Pwyll, Glyndwr, Arthur a Llywelyn

Dydd Llun 7.9.20 - Pob disgybl yn dychwelyd.